# CYNGOR TREF
# LLANFAIRFECHAN
# TOWN COUNCIL

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB**
**Maer: Cyng. Laura Fielding Dirprwy Faer: Cyng Alun Rhys Jones**

## AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF
## NOS FERCHER, TACHWEDD 8FED 2023

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod Hydref 18fed 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Cronfa Allweddol Cynghorau Tref a Chymuned
7. Derbyn gwybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiad Sul y Cofio Llanfairfechan 2023
8. Derbyn gwybodaeth ddiweddaraf am Ffair Nadolig Llanfairfechan a chymeradwyo'r adloniant
9. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ac adroddiadau ariannol ar gyfer Tachwedd 2023

| **Taliadau i'w cyflwyno** | |
|---|---|
| 1. | Yswiriant Cymorth Cyntaf gan Nationwide Ambulance Service Ltd ar gyfer y Tân Gwyllt £216.00 |
| 2. | Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Tachwedd 2023 £4700 |
| 3. | Taliad grant Darganfod Llanfairfechan £1000 |
| 4. | Costau Amberon ar gyfer cau ffyrdd ar gyfer Sul y Cofio £750 |
| 5. | Afalau Taffi Nood Food £75.00 (pris cost) |
| 6. | Costau Amberon ar gyfer cau ffyrdd ar gyfer y Ffair Nadolig £1362.00 |
| | Taliadau Ôl-ddyddiedig |
| 7. | Taliad Carol Gell – llechi'r cychod £11.00 |
| 8. | Tân Gwyllt £1800.00 |
| 9. | Taliad Stephen Lomax – blodau'r senotaff £31.50 |
| 10. | British Gas £60.22 |

10. Trafod materion cynllunio

<u>Dim wedi'u derbyn</u>

11. Derbyn gohebiaeth
12. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
    1. Adroddiad am ddigwyddiadau Calan Gaeaf a Thân Gwyllt
    2. Cynhadledd CVSC – prosiect gwirfoddoli Amdani
    3. Cyfarfod gyda Chlwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan
13. Derbyn materion brys i'w trafod

# COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF LLANFAIRFEHCAN
# NOS FERCHER TACHWEDD 8FED 2023

**Yn Bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Alun Rhys Jones; Cyng Penny Andow (ar-lein); Cyng Sharne-Marie Bellis; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff (ar-lein); Cyng Chris Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Elgan Owen (ar-lein); Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg (ar Zoom)**
**Clerc y Dref Jayne Neal. Cynhaliwyd y cyfarfod ar Microsoft Teams gan nad oedd ZOOM ar gael.**

1. **Estynnodd y Dirprwy Faer Alun Rhys Jones groeso i bawb i'r cyfarfod**
2. **Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Maer Laura Fielding; Cyng Leena Farhat; Cyng Rob Jewell: Cyng Gareth Jones**

3. **Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu) – Dim buddiannau rhagfarnus wedi'u datgan. Bu i'r Cyng Andrew Hinchliffe a Chyng Chris Jones ddatgan buddiant personol gan eu bod yn aelodau o'r pwyllgor Darganfod Llanfairfechan.**
4. **Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.**
    1. **Roedd Owen Conry, Rheolwr Perygl Llifogydd ac Isadeiledd a Daniel Durrans, Peiriannydd Isadeiledd o Dîm Amddiffyn rhag Llifogydd Conwy, yn bresennol ar-lein i roi diweddariad ar brosiect amddiffyn Arfordir Llanfairfechan.**

**Cafodd Daniel Durrans ei gyflwyno fel y Swyddog Prosiect newydd a chyswllt y Cyngor Tref ar gyfer y prosiect hwn. Cawsom wybod bod y cam dylunio yn cael ei gwblhau a'r gobaith ydy y bydd y gwaith adeiladu yn digwydd cyn diwedd mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, mae hyn i gyd yn dibynnu ar waith cwblhau'r dyluniad, prosesau cyllid Llywodraeth Cymru ac unrhyw broblemau tendro, gweinyddol neu adeiladu gall godi yn y cyfamser. Ategwyd bod risg llifogydd yn Llanfairfechan yn is nac mewn ardaloedd eraill sy'n galonogol ac yn golygu y bydd gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn eithaf syml i'w cwblhau. Bydd gwaith pellach yn digwydd i amddiffyn eiddo ar Draeth y Gorllewin, ond bydd hwn yn brosiect ar wahân. Mae proses fodelu arfordirol arbenigol ar fynd i asesu rhagolygon tywydd cywir ar gyfer y dyfodol a'r gobaith ydy bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr. Y cynllun ydy ychwanegu troedfedd ychwanegol at wal y môr er mwyn rhoi digon o amddiffyniad ar gyfer y dyfodol. Mae cam cyntaf y gwaith ar fynd ar hyn o bryd ar wal bresennol y môr i brofi ei ddyfnder a'i gyflwr. Mae'r arwyddion yn edrych yn dda gan fod yr offer profi wedi mynd lawr at 3.8m a heb gyffwrdd y sylfaeni eto. Y dyfnach ydy'r sylfaeni, y gorau ydy ansawdd y wal sy'n ei gwneud yn galonogol ei fod yn bwrpasol at ei ddiben.**
**Oherwydd amgylchiadau penodol yn Llanfairfechan, mae dau brosiect adeiladu wedi'u cynllunio i redeg ar y cyd er mwyn lleihau unrhyw darfu.**

1. **Bydd gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn cymryd lle er mwyn cynyddu uchder y wal. Caiff hyn ei wneud fesul adran fel na fydd yr holl wal yn cael ei effeithio yn ystod y gwaith adeiladu. Caiff digwyddiad galw heibio i drigolion ei gynnal er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymgynghori ar y broses.**
2. **Adnewyddu'r maes parcio gan gynnwys y system ddraenio ac isadeiledd. Mae dyluniadau blaenorol wedi'u llunio a'u cytuno arnynt gan y Cyngor Tref gyda'r amod y bydd ymgynghoriad pellach yn digwydd gyda'r trigolion. Y tîm priffyrdd fydd yn arwain ar ran yma'r prosiect ac mae Swyddog Prosiect hefyd wedi'i neilltuo ar gyfer y rhan yma. Yn ychwanegol at gyllid gan Lywodraeth Cymru o waith amddiffyn llifogydd, mae achos busnes wedi'i godi ar gyfer y gwaith hwn o dan y cynllun 'gwario er mwyn arbed'. Golyga hyn y bydd angen digolledu arian ar gyfer y gwaith adnewyddu o gostau talu ac arddangos ar y safle. Bydd trafodaethau pellach ac ymgynghoriad gyda'r trigolion yn digwydd i ystyried y dull gorau o ymdrin â hyn a bydd y Cyngor Tref ar gael i gynrychioli barn y trigolion ar y broses hon.**

**Bu rhai ymholiadau ynghylch sut bydd hyn yn tarfu ar gaffis, llefydd parcio a'r refeniw disgwyliedig o'r maes parcio unwaith bydd peiriannau talu ac arddangos yno, ond mae'r rhain yn gwestiynau bydd angen eu trafod gyda rheolwr Gwasanaethau'r Gymdogaeth gaiff ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol. Cafodd y Cyngor Tref sicrwydd bod y prosiect hwn bellach yn cael ei wneud yn fewnol o fewn Cyngor Conwy felly bydd cyfathrebu da rhwng y ddau dîm sydd ynghlwm â'r gwaith. Bydd y Rheolwr Prosiect yn diweddaru'r Cyngor Tref gydag unrhyw ddatblygiadau ac yn dod i un o'n cyfarfodydd i ddangos yr adroddiad modelu arfordirol unwaith bydd wedi'i dderbyn.**
**Roedd y Cynghorwyr Tref yn pryderu bod y prosiect hwn wedi'i drafod ers 2016 a bod awgrym wedi bod yn flaenorol y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd tymor yr Hydref 2023, fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod pethau wedi symud ymlaen ac mae gobaith bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn 2024. Diolchwyd i'r Tîm Amddiffyn Rhag Llifogydd am ddod i'r cyfarfod ac am rannu gwybodaeth glir am y prosiect. Yn ychwanegol,**

**diolchwyd iddynt am eu gwaith ar draws Llanfairfechan yn ymchwilio a gweithio ar y system ddraenio, gan felly ddiogelu eiddo rhag dŵr arwyneb mewn tywydd garw.**
**Holwyd a fyddai modd i'r gysgodfan pagoda gael ei adnewyddu o dan yr arian grant a chytunwyd y dylid ystyried hyn.** **Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod Hydref 18fed 2023 a'r rhestr weithredu bresennol (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Roedd y cofnodion wedi'u dosbarthu yn flaenorol ac fe nodwyd eu bod wedi'u darllen. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.**
**Cynigwyd gan y Cyng C Roberts Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**6. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Cronfa Allweddol Cynghorau Tref a Chymuned**

**Gall awgrymiadau newydd gynnwys:**

- Prosiect baneri'r siop – defnyddio'r arian i brynu dau set o faneri dwyochrog gyda'r dyluniad penodol.

Bu trafodaeth ynghylch hyn a cytunwyd y gallai'r cais grant gynnwys y prosiect hwn. Y Clerc i gasglu mwy o wybodaeth ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

- Arian tuag at Ŵyl Ferlod Llanfairfechan 2024 – mae'r adborth wedi bod yn wych o ddigwyddiadau eleni.

Y Clerc i gyfarfod gyda Llais y Lle i weld pa gynlluniau sydd yn eu lle ar gyfer y flwyddyn nesaf ac os oes ganddyn nhw arian. Fodd bynnag, yn dilyn llwyddiant yr ŵyl yn 2023, cytunwyd y byddai'n achos teilwng.

- Arian tuag at yr Ŵyl Farcud – helpu i greu digwyddiad mwy a dod ag artistiaid creadigol i mewn i helpu.

Y Clerc i roi mwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad.

- Bu awgrym am syniad pellach gan fod trigolion yn pryderu am y safle bws ym Mhendalar. Y Clerc i ymchwilio a oes modd codi safle bws newydd yno a chael prisiau erbyn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**7. Derbyn gwybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiad Sul y Cofio Llanfairfechan 2023**

**Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council**
**Llanfairfechan Remembrance**
**Order of Parade Sunday 12th November 2023**

Piper: Mr Richard Griffiths leads the parade
Standard Bearers: David Lisseman & Sue Hughes
Llanfairfechan and Local Veterans
Llanfairfechan Church Leaders
Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council
Association of Brownies, Guides and Rainbows
Wreath Layers and Community Groups
Members of the public are welcome to join into the back of the parade.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Welcome to the ecumenical service at Llanfairfechan Cenotaph | | Pastor Chris Arkell Hope Church Llanfairfechan |
| 10:46am | Hymn | O God Our Help in Ages Past | Pastor Chris Arkell Hope Church Llanfairfechan |
| 10:48am | Reading | John 5 9-17 | Janice Pavey English Methodist Church |
| 10:51am | Darlleniad | Salm 121 | Carol Williams Capel Horeb |
| 10:54am | Emyn | Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd | Paul Williams Capel Horeb |
| 10:57am | Gweddi / Prayers | Ein Tad /The Lord's Prayer | Deacon Andy Broadbent St Mary's & Christ Church |
| 10:59am | The Last Post | | Bugler: Sacheus Pritchard |
| 11:00am | 2 minutes silence | | |
| 11:02am | Reveille | | Bugler: Sacheus Pritchard |
| 11:04am | Ni heneiddiant hwy | | Eifion Davies Veteran's Breakfast Club |
| 11:05am | They Shall Not Grow Old | | Mayor Cllr Laura Fielding Town Council |
| 11:05am | Barddoniaeth | Enwau / Names Alan Llwyd | Eleri Bowen Capel Horeb |
| 11:10am | Roll of Honour | Names of soldiers lost in WW1<br>Names of soldiers lost in WW2<br>Names of soldiers lost in service | Veteran's Breakfast Club Dee Edwards Tricia Henry |
| 11:15am | Announcement of the Laying of the Wreaths | | Town Clerk Jayne Neal |
| 11:20am | Calon Lan | | Deputy Mayor Alun Jones |
| 11:30am | Bendith / Blessing National Anthems and close of service | | Pastor Chris Arkell Hope Church Llanfairfechan |
| There are a number of church services taking place after the Cenotaph Service and all are welcome to join with the congregations in Llanfairfechan | | | |



**8. Derbyn gwybodaeth ddiweddaraf am Ffair Nadolig Llanfairfechan a chymeradwyo'r adloniant**

**Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Ffair Nadolig 2023 ar ddydd Sul Rhagfyr 10fed 12-6yh:**

**1. Ffair Gymunedol wedi'i threfnu ar gyfer neuadd Ysgol Babanod. Roedd 15 stondin yno y llynedd ond bydd 10 stondin yno eleni gan ei bod yn orlawn yno yn 2022.**

**2. Bydd y stondinau Bwyd a Chrefftwyr yn y brif neuadd am gost o £10 y stondin. Bu awgrym ein bod yn agor y farchnad a chynnig stondinau tu allan ar y stryd am ddim i'r rheiny sy'n cytuno. Fe allwn ni hefyd agor Siambr y Cyngor fel man gwerthu am ddim. Penderfynwyd na ddylid defnyddio Siambr y Cyngor gan ei fod yn bwysig cadw un lle tawel lle gall rai newid neu gael seibiant. Y Clerc i gynnig stondinau tu allan a gofyn i'r ysgol gawn ni ddefnyddio iard fawr yr ysgol ar gyfer hyn.**

**3. Siôn Corn y Rotari wedi'i drefnu a bydd y groto ar y llwyfan mewn gasebo gan fod hyn wedi gweithio'n dda y llynedd**

**4. Y ffair wedi'i drefnu**

**5. Trefniadau cau ffyrdd gydag Amberon wedi'u trefnu**

**6. Mae adloniant wedi'i drefnu ar gyfer y gasebo mawr a pherfformwyr eraill wedi'u hawgrymu.**

- **Drymwyr – hoffem ni gael y band wnaeth chwarae ar noson Tân Gwyllt i ddechrau'r diwrnod. Y Clerc i holi Llais y Lle ydyn nhw wedi'u trefnu ar gyfer Gorymdaith y Nadolig**
- **Efallai bydd dawnswyr Crazy Catz yn perfformio'r darn wnaethon nhw ei baratoi ar gyfer yr ŵyl ferlod ddiweddar**
- **Band Hyfforddi Porthaethwy (wedi'i drefnu)**
- **Sesiwn canu gyda Quayside Buccaneers**
- **Parêd Lanternau gyda Llais y Lle**
- **Carolau a Chaneuon Nadolig gyda Marian Bryfdir a chantorion Neuadd Gymunedol Llanfairfechan.**

**Cytunwyd ar yr holl drefniadau a cadarnhaodd y Clerc y byddai stondin paentio wyneb am ddim yno hefyd ac y byddai mins peis yn cael eu cynnig i'r stondinwyr.**

**9. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ac adroddiadau ariannol ar gyfer Tachwedd 2023**

1. **Camgymeriad sillafu wedi'i gywiro fel a ganlyn: Cyfanswm gwariant ar gyfer Hydref Net 6444.65 TAW 113.31 Cyfanswm 6557.96**
2. **Swyddog Prosiect yn dychwelyd ym mis Ionawr 2023 felly bydd marchnad mis Ionawr yn mynd yn ei blaen.**
3. **Incwm o'r farchnad yn parhau i fod yn gyson o gwmpas £320 y mis**
4. **Y Clerc i ofyn am arian mân yn y cyfarfod nesaf**

**Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi**

**10 Trafod materion cynllunio**

**Dim wedi'u cofrestru ond daeth eitem hwyr i law:**

**0/51220 The Close LL330AG Coeden onnen – lleihau'r corun. Y Cyngor Tref yn cytuno y dylid dilyn cyngor Swyddog Coed CBSC Penderfynwyd derbyn a nodi**

**10. Derbyn gohebiaeth**

1. **Llythyr wedi'i dderbyn gan drigolyn yn mynegi pryder ynghylch presenoldeb isel y Cynghorydd Sir Jacob Williams yng nghyfarfodydd CBSC. Nodwyd bod nifer o drigolion yn mynegi eu pryderon wrth Gynghorwyr Tref. Roedd siomedigaeth yn amlwg yn y diffyg cynrychiolaeth a nodwyd bod hwn yn fater i'w gymryd o ddifrif ar adeg lle mae cyllid mor brin yng Nghonwy. Nodwyd y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch unrhyw bryderon am Gynghorwyr. Y Clerc i ateb yr achwynwyd gan gynnwys manylion yr ombwdsmon.**
   **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**11. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd**

1. **Adroddiad am ddigwyddiadau Calan Gaeaf a Thân Gwyllt**
   **Rydym yn amcangyfrif bod tua 150 o bobl wedi cerdded yn yr orymdaith lanternau a bod hyd at 500 o bobl wedi dod i'r digwyddiad cyfan. Roedd adborth ardderchog wedi bod a rhannwyd lluniau ar TV Conwy ac yn y Daily Post. Diolch i Manon a'i thîm am weithio mor galed ar y prosiect hwn ac rydym mewn trafodaethau ynghylch ennill mwy o gyllid er mwyn cynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf.**
2. **Cynhadledd CVSC – Cynhadledd ardderchog gyda llawer o waith rhwydweithio da a gwybodaeth wedi'i rhannu. Yn arbennig, prosiect gwirfoddoli Amdani. Prosiect newydd i annog gwaith gwirfoddoli yn Sir Conwy. Y Clerc i gyfarfod gyda chydlynydd y prosiect i gasglu mwy o wybodaeth ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol.**
3. **Cyfarfod gyda Chlwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan**
   **Mae cyllid sylweddol ar gael gan Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Mae'r Clerc a'r trysorydd o'r Clwb Pêl-droed yn parhau i weithio ar gais grant yn barod ar gyfer y rownd newydd o gynigion ym mis Rhagfyr. Heb dderbyn gwybodaeth o'r cynnig i'r Gronfa Allweddol yng Nghonwy – ddim yn obeithiol iawn gan eu bod wedi derbyn gormod o gynigion. Roedd trigolyn yn bresennol yn y cyfarfod gan nodi y dylai'r prosiect fod yn llawer iawn mwy uchelgeisiol ac wedi cynnig adeiladu cyfleuster hamdden dan do yn yr ardal. Nodwyd bod llawer o waith ar fynd i ddatblygu cyd-gynhyrchiad ar y prosiect hwn ac y gallai'r camau adeiladu o'r prosiect hwn efallai gyfrannu at brosiect ehangach rhywbryd yn y dyfodol yn dilyn ymgynghoriad gyda'r trigolion. Mae ymgynghoriad cychwynnol o'r cynllun Kickstarter yn awgrymu bod trigolion eisiau diweddaru'r cyfleusterau presennol ac mae modd gwneud hyn drwy gyllid y Gymdeithas Bêl-droed. Roedd uwchraddio'r cwrt MUGA a datblygu'r cwrt pêl-droed anffurfiol yn llefydd da i ddechrau arni. Cyn bod unrhyw brosiect mawr yn digwydd, buasai angen astudiaeth ddichonolrwydd ac efallai caiff hyn ei gynnal nes ymlaen. Ar hyn o bryd mae pwysau mawr ar gyllidebau ar gyfer gwasanaethau syml ac nid oes arian mawr ar y ffordd. Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid targedu cyllid lle bo angen. Mae cais wedi'i gyflwyno i Gronfa Allweddol CBSC ac mae'r Cyngor Tref yn aros am y canlyniad. Nodwyd y gallai'r ysgol newydd roi cyfle i ddatblygu ardal dan do ond does dim sicrwydd y bydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu. Mae'r ysgol yn rhan o gynnig cystadleuol ar y funud am adeilad ysgol. Cytunwyd y dylid parhau gyda'r cynlluniau presennol a'r Clerc i barhau gyda'r gwaith ac adrodd yn ôl mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**
4. **Neuadd Gymunedol Llanfairfechan - mae'r ddalen elw a cholledion yn dangos colled o dros £20,000 eleni yn bennaf oherwydd cynnydd disgwyliedig yng nghostau tanwydd. Rydym yn aros am hysbysiad gan y Gronfa Allweddol ynglŷn â'r cynnig am oleuadau llwyfan a swydd swyddog datblygu newydd dan**

**gytundeb. Nodwyd na chafodd cais ei gyflwyno i'r Cyngor Tref yn 2022 ond mae'n amlwg y bydd angen i'r pwyllgor wneud cais am gynnig sylweddol yn 2023/24 a bydd yn cyflwyno un yn y ddeufis nesaf.**

5. **Mae Darganfod Llanfairfechan yn parhau gyda'r gwaith o ddatblygu cyfansoddiad newydd fydd yn ymgorffori'r Bartneriaeth Cynllunio Cymunedol. Mae'r calendrau ar werth a byddant ar gael dros yr ychydig fisoedd nesaf.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

12. **Derbyn materion brys i'w trafod**
    1. **Cafodd y Cyngor Tref a phartneriaid eu llongyfarch am eu gwaith diweddar ar ddigwyddiadau i Lanfairfechan – mae'r adborth wedi bod yn ardderchog a'r trigolion wedi bod yn gefnogol iawn.**
    2. **Cafodd y Cyng Elgan Owen hefyd ei longyfarch ar ei benodiad gwaith newydd fel Prif Swyddog CVSC – datblygiad haeddiannol iawn.**
    3. **Y Clerc i roi gwybod am y golau stryd ar y Promenâd gan nad oedd wedi'i oleuo ar Hydref 31ain.**
    4. **Bu trafodaeth hir am y gwasanaeth bws a'r safleoedd bws yn Llanfairfechan. Nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth wedi'i rhannu ynghylch cynlluniau yn dilyn cwymp prosiect cylchfan yr A55. Y Clerc i gysylltu gyda Phennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth i weld pa ddatblygiadau sydd wedi bod gyda'r canlynol:**

    - **Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r safleoedd bws o gwmpas Pendalar gan eu bod wedi'u newid oherwydd y gwaith prosiect arfaethedig ar yr A55?**
    - **Pa dystiolaeth sydd bod Arriva yn bwriadu lleihau'r gwasanaeth bws i Lanfairfechan?**
    - **Ydy'r cyfyngiad cyflymder o 50mya am gael ei gyflwyno ar hyd darn yr A55? Penderfynwyd derbyn a nodi**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh**